## Comisiwn y Cynulliad
## Assembly Commission

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**NAFWC 2010 (Papur 7)**
**Adroddiad y Bwrdd Rheoli i'r Comisiwn**

**Dyddiad:** 8 Gorffennaf 2010
**Amser:** 16.00
**Lleoliad:** Ystafell Gynadledda 4B
**Enw'r Awdur a rhif cyswllt:** Claire Clancy, estyniad 8233

# Adroddiad y Bwrdd Rheoli i Gomisiwn y Cynulliad – Gorffennaf 2010

*Paratowyd y papur hwn i'w ystyried gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Penderfynwyd ei bod yn addas ei gyhoeddi wedi iddo gael ei ystyried yn unol â rheolau'r Comisiwn ar gyfer cynnal busnes. Ni chaniateir i gynnwys y papur hwn gael ei gyhoeddi na'i ddatgelu'n rhy gynnar oherwydd gallai hyn ddylanwadu ar drafodaethau'r Comisiwn.*

**1.0 Amcanion strategol Comisiwn y Cynulliad**

**1.1 Amcan Strategol - Hyrwyddo datganoli ac annog mwy o bobl i gymryd rhan yn y broses**

**(a) Sylw yn y Wasg**

Y stori fawr y chwarter hwn fu taith y Mesur Taliadau a'r bleidlais unfrydol ddilynol o'i blaid, sy'n golygu y gall y Cynulliad gynyddu ei ymrwymiad yn awr i system gwbl agored ac annibynnol o osod y lefel o gymorth ariannol i Aelodau'r Cynulliad.

Yn ystod y cyfnod hwn hefyd, derbyniodd degfed Mesur y Cynulliad, sef y Mesur Cig Coch, Gymeradwyaeth Frenhinol. Cynigiodd hyn gyfle i fwrw golwg ôl-syllol dros gyflawniadau deddfwriaethol y Cynulliad ers 2007.

Rhoddwyd sylw i ymrwymiad y Cynulliad i greu fersiwn dwyieithog haws i ddefnyddwyr o gofnod y trafodion yn dilyn cyhoeddi adroddiad gan y Panel Annibynnol ar Wasanaethau Dwyieithog.

Yn dilyn agor y Pierhead ar 1 Mawrth 2010, roedd mwy na 10,000 o ymwelwyr wedi cerdded drwy ei ddrysau o fewn mis i'w agor, adlewyrchiad o ba mor ardderchog yw adnewyddu ac addasu'r adeilad a llwyddiant yr ymgyrch gyfryngau a marchnata ynghylch ei ailagor.

Bu Adam Rees yn hyrwyddo'r Cynulliad wrth ennill gwobr bwysig am gydlynu'r cynllun llwyddiannus Camu Ymlaen Cymru i annog mwy o bobl o grwpiau a dangynrychiolir i gymryd rhan yn y broses wleidyddol.

(b) Allgymorth a Chysylltiadau Rhyngwladol

Digwyddiadau

System Archebu – mae ffordd newydd o archebu digwyddiadau yn y mannau cyhoeddus yn y Senedd, Siambr Hywel a'r Pierhead ar waith ers pedwar mis. Mae hyn wedi creu rhwydwaith digwyddiadau ar draws y Cynulliad cyfan gyda phob rhan o'r sefydliad yn cydweithio i gynllunio a darparu rhaglen gynhwysfawr o ddigwyddiadau. Mae'r system newydd wedi profi rhan problemau cychwynnol, ac yn ystod y cyfnod trosglwyddomae'r tîm wedi bod yn awyddus i dderbyn adborth a ddefnyddir i wella'r gwasanaeth. Mae'r system newydd yn cael ei monitro a'i haddasu fel y bo'n briodol.

Rhyngwladol

Cyflwynwyd a chynrychiolwyd y Cynulliad yn gadarnhaol yn 41ain Gynhadledd Rhanbarth Ynysoedd Prydain a Gwledydd Môr y Canoldir yn Ynys Manaw. Cymerodd ddirprwyaeth yn cynrychioli Cangen Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad y Cynulliad Cenedlaethol ran yn y gynhadledd hon a'r thema oedd "Technoleg a Democratiaeth: Llwyddiannau a Heriau". Ystyriwyd bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn arweinydd rhanbarthol mewn e-ddemocratiaeth seneddol.

Allgymorth

Mae'r Tîm Allgymorth wedi datblygu partneriaethau â nifer o sefydliadau i gynyddu dealltwriaeth o'r Cynulliad ac annog cyfranogiad. Mynychodd unigolion o Shelter Cymru

**weithdy'r Cynulliad a arweiniodd at y grŵp yn cyflwyno deiseb yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i bwyso ar Lywodraeth y Cynulliad i gynnwys gwybodaeth ac addysg ar "adael cartref" yn y Cwricwlwm Cenedlaethol. Gwahoddwyd yr unigolion i roi tystiolaeth yn ymchwiliad y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant i 'Gynhwysiad Ariannol ac effaith Addysg Ariannol'. Mae'r tîm yn gweithio gydag amrywiaeth o sefydliadau â diddordeb i ddarparu gweithdai a phartneriaethau i annog ymgysylltiad ehangach â'r Cynulliad gan bob sector a rhan o Gymru.**

1.2 Amcan Strategol - Undod, arweiniad ac ymateb yn feiddgar i newidiadau cyfansoddiadol

(a) **Yr wybodaeth ddiweddaraf am Fusnes y Cynulliad**

**Y rhaglen ddeddfwriaethol**

**Ers yr adroddiad diwethaf i'r Comisiwn mae Mesur arall a gynigiwyd gan y Llywodraeth wedi dechrau ar y broses graffu (Hawliau Plant a Phobl Ifanc) a'r Mesur olaf a gynigiwyd o ddatganiad deddfwriaethol olaf y Llywodraeth (Llywodraeth Leol) wedi dechrau ar ei gyfnod cyn-gyflwyno, gyda'r bwriad o'i gyflwyno'n ffurfiol cyn diwedd y tymor. O ddechrau'r Trydydd Cynulliad, mae 17 Gorchymyn arfaethedig, 14 Gorchymyn drafft a 18 Mesur arfaethedig wedi cael eu cyflwyno.**

**Pasiwyd y Mesur cyntaf a gynigiwyd gan y Comisiwn (Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) gan y Cynulliad ar 26 Mai ac mae bellach yn disgwyl Cymeradwyaeth Frenhinol (ac yn cael ei gyflwyno i'r Cyfrin Gyngor ym mis Gorffennaf). Os caiff ei gymeradwyo, bydd hyn yn gwneud cyfanswm o 11 Mesur yn cael eu pasio yn y Trydydd Cynulliad.**

**Er nad oes gennym unrhyw wybodaeth bellach am nifer y darnau o ddeddfwriaeth y mae'r Llywodraeth yn debygol o'i chyflwyno yn ystod blwyddyn olaf y Cynulliad, mae'r Pwyllgor Busnes wedi ystyried amrywiaeth o opsiynau i sicrhau bod taith deddfwriaeth yn cael ei blaenoriaethu ac mae wedi cytuno i ystyried pob un o'r rhain ar sail achosion unigol unwaith bydd y manylion ar gael. Disgwylir hefyd i Ann Jones gyflwyno ei Mesur arfaethedig mewn perthynas â**

Systemau Llethu Tân Domestig cyn toriad yr haf ac mae'n debygol y bydd pwysau ar amser pwyllgorau deddfwriaeth ac, yn ddiweddarach yn y broses, ar amser cyfarfodydd llawn. Mae'r Pwyllgor Busnes wedi ystyried y pwysau hyn wrth ystyried dyddiadau torri ac mae wedi cytuno i adolygu'r rhain yn rheolaidd hyd at ddiddymu'r cynulliad.

**(b) Y Rhaglen Newid Busnes**

Mae mwyafrif y prosiectau o fewn y Rhaglen Newid Busnes yn gwneud cynydd da. Datblygwyd adnoddau er mwyn cynorthwyo rheolwyr prosiect a bydd eu defnydd yn cyfrannu at allu rheoli prosiect cynyddol o fewn y sefydliad. Mae Swyddfa'r Rhaglen, a arweinir gan Craig Stephenson, wedi uno gwaith ein Dadansoddwyr Busnes i ddarparu gwell integreiddio ar gyfer yr holl waith prosiect. Cynhaliwyd adolygiad o bob un o'r 23 prosiect gwella presennol ac sydd ar y gweill ym mis Mehefin er mwyn i brosiectau y rhoddir blaenoriaeth iddynt allu bwrw ymlaen o fewn y flwyddyn ariannol bresennol gyda phrosiectau eraill yn cael eu hoedi neu eu hatal yn gyfan gwbl. Effaith hyn yn lleihau cost gwariant cyffredinol y rhaglen. Mae adolygiadau beirniadol yn cael eu cynnal ym mis Gorffennaf a mis Medi i sicrhau bod prosiectau yn glynu at amser a chyllideb.

**(c) Yr wybodaeth ddiweddaraf ar UNO**

Mae costau'r prosiect UNO yn aros ychydig yn is na'r lefelau a amcangyfrifwyd ar gyfer y Comisiwn yn ei gyfarfod ym mis Mawrth ac maent yn cael eu rheoli'n llym. Mae'r prosiect ar amser, yn dilyn cwblhau gwaith allweddol gan BT ym mis Mehefin. Mae'r gweinyddwyr a'r rhwydwaith yn cael eu hadeiladu ar hyn o bryd yn y ddwy ganolfan ddata, yn Nhŷ Hywel ac yn Nhŷ'r Cwmnïau.

Mae cynllun drafft ar gyfer symud i'r system newydd wedi'i drefnu a'i anfon at Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad sydd ar Grŵp Defnyddwyr UNO. Caiff y cynllun ei dreialu gyda grŵp peilot o ddefnyddwyr ar ddechrau mis Awst, ac yna rhoddir y cynllun ar waith ymysg gweddill y staff dros ŵyl banc diwedd mis Awst. Caiff y system ei gyflwyno i Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth rhwng 6 Medi a 10 Hydref.

**1.3 Amcan Strategol - parch, cywirdeb a llywodraethu da**

**(a) Pwyllgor Archwilio – 10 Mehefin**

Cyfarfu Pwyllgor Archwilio Comisiwn y Cynulliad ar 10 Mehefin i ystyried cyfrifon drafft 2009-10 y Comisiwn sydd bellach yn cael eu harchwilio gan Swyddfa Archwilio Cymru. Trafododd y Pwyllgor hefyd reoli'r risgiau sy'n gysylltiedig ag amcan cyntaf y Comisiwn, sef hyrwyddo datganoli ac annog mwy o bobl i gymryd rhan yn y broses.

**(b) Mis Cydraddoldeb ac Amrywiaeth**

Drwy gydol mis Mehefin, cynhaliodd y Tîm Cydraddoldeb nifer o ddigwyddiadau i ddathlu Mis Cydraddoldeb ac Amrywiaeth. Gan weithio gyda chydweithwyr ar draws y Cynulliad trefnodd y Tîm sesiynau ymwybyddiaeth staff, lansiadau polisïau, ymgymerwyd ag arolwg staff, ail-lansiwyd ein safle mewnrwyd, rhannwyd arfer da a hyrwyddwyd iechyd a lles corfforaethol. Er bod y ffocws yn fewnol yn bennaf, denodd y Tîm amrywiaeth o sefydliadau cysylltiedig â chydraddoldeb hefyd i gynnal digwyddiadau yn y Senedd a'r Pierhead a chysylltodd y Tîm Allgymorth ag amryw o bobl ledled Cymru. Mae rhagor o wybodaeth am y digwyddiadau a gynhaliwyd drwy gydol mis Mehefin ar gael yma:
http://aps/presidingoffic/news/Messages%20to%20Staff%20-%202010/05%20-%20May%202010/equality%20month%20leaflet.pdf

**(c) Cynllun Mentora'r Cynulliad**

Dathlwyd cwblhau Cynllun Mentora Camu Ymlaen Cymru ar 21 Ebrill yn y Senedd. Daeth 30 o'r rhai a gafodd eu mentora a'u teuluoedd ynghyd i ddathlu eu cyflawniadau personol drwy'r Cynllun, gyda phum person a gafodd eu mentora yn rhannu eu profiadau gyda'r holl westeion.

Mae'r Cynllun bellach yn cael ei werthuso'n fewnol gyda'r nod o gyhoeddi adroddiad ar ddiwedd mis Awst. Mae'r Athro Laura McAllister wedi cytuno i ysgrifennu rhagair i'r adroddiad a fydd yn adolygu strwythur technegol y Cynllun,

yn ogystal â'r datblygiad o safbwynt dinasyddiaeth weithgar a ddangoswyd gan y rhai a gafodd eu mentora.

Ym mis Mehefin, enillodd Adam Rees, Cydlynydd Camu Ymlaen Cymru, gategori 'Gwobr Dinasyddiaeth Weithgar' yng Ngwobrau Aspire y Sefydliad Materion Cymreig. Rhoddwyd y wobr i gydnabod y Cynllun a'r gefnogaeth mae Adam wedi ei rhoi i'r mentoriaid a'r rhai a gafodd eu mentora.

1.4 Amcan Strategol - Gweithio'n gynaliadwy

(a) Costau Defnyddio Trydan

Yn ystod mis Mawrth a mis Ebrill, ymgymerwyd â nifer o brofion i bennu faint o ynni a wastraffir pan fydd cyfrifiaduron y Cynulliad yn cael eu gadael ymlaen dros nos ac ar benwythnosau.

Mae'r defnydd o drydan yn cynrychioli 90 y cant o ôl-troed carbon y Cynulliad. Cost rhedeg un cyfrifiadur o dan amodau swyddfa arferol gan ei ddiffodd bob nos yw £21.97 y flwyddyn. Os caiff cyfrifiadur ei adael ymlaen drwy'r amser, byddai'n costio £65.10 y flwyddyn mewn ynni i'w redeg.

Ar ôl goleuo, cyfrifiaduron a monitorau sy'n defnyddio'r swm uchaf o ynni mewn amgylcheddau swyddfa. Er mwyn pennu i ba raddau y mae ymddygiad staff yn dylanwadu ar yr arbedion ynni y gellir eu gwneud drwy'r ffordd y maent yn defnyddio eu cyfrifiaduron, cynhaliwyd nifer o brofion yn mesur y defnydd o ynni ar un cyfrifiadur mewn gwahanol amgylchiadau.

Gall newid y ffordd y caiff un cyfrifiadur ei ddefnyddio arwain at arbedion o £43.13 y flwyddyn. Mae oddeutu 600 o gyfrifiaduron ar ystâd y Cynulliad a phe byddent oll yn cael eu diffodd bob nos, byddai hyn yn arwain at arbediad o £25,878 y flwyddyn mewn ynni ac allyriadau.

O ran ynni, dangosodd profion fod diffodd cyfrifiaduron dros nos yn cael effaith fwy fyth a gall arwain at arbedion o 174 tunnell o CO2 y flwyddyn. Mae hyn yn gymhelliant allweddol

dros leihau ein defnydd o ynni a gwneud y peth iawn i gyflawni ein targedau lleihau ynni blynyddol.

1.5 Amcan Strategol - Y gwasanaeth gorau, a gaiff ei ddarparu yn y ffordd fwyaf effeithiol

(a) Buddsoddwyr mewn Pobl

O ganlyniad i asesiad ffurfiol ar 10-13 Mai lle y dewiswyd 12 y cant o staff y Cynulliad ar hap i gael cyfweliad gyda'r Asesydd, cafodd y Cynulliad ei gydnabod fel sefydliad Buddsoddwr mewn Pobl safon Aur. Ar hyn o bryd, mae 150 o sefydliadau ledled y DU wedi ennill statws Aur a dim ond tri sefydliad arall yng Nghymru sydd â'r lefel hon o gydnabyddiaeth. Y Cynulliad yw'r corff deddfu cyntaf i dderbyn 'Aur' yn y DU ac mae yn 1 y cant uchaf o sefydliadau'r byd o ran llwyddiant Buddsoddwyr mewn Pobl.

Mae canlyniad yr asesiad yn adlewyrchu ymrwymiad y sefydliad i reoli pobl a chynnwys staff yn yr ymdrech i gyflawni gwelliant parhaus. Yn yr adroddiad, dywed yr Asesydd "Roedd yn bleser gweithio gyda sefydliad sydd mor ymroddedig i'w werthoedd a'i egwyddorion".

(b) Yr wybodaeth ddiweddaraf am y feithrinfa

Roedd dyfarnu'r contract i Feithrinfa Darling Buds yn ei wneud yn ofynnol iddynt gaffael ac addasu adeilad y drws nesaf. Dechreuodd y gwaith addasu ar 7 Mehefin yn dilyn adleoli'r deiliaid blaenorol, a disgwylir y bydd yn dod i ben erbyn canol Gorffennaf.

Aeth staff y Comisiwn i ymweld â'r adeilad i adolygu'r gwaith ar 23 Mehefin ac mae cynnydd da yn cael ei wneud. Yn dilyn cwblhau'r gwaith, bydd angen i Darling Buds ennill cymeradwyaeth AGGC a gallai'r amserlen ar gyfer hyn bara chwe wythnos. Cynhaliwyd trafodaethau anffurfiol gydag AGGC ac ni nodwyd unrhyw broblemau.

I baratoi ar gyfer agor y cyfleusterau newydd, mae staff y Comisiwn wedi bod yn cyd-gysylltu â Darling Buds i ddatblygu gwybodaeth ac arweiniad am y cyfleusterau a'u hyrwyddo i holl ddeiliaid yr adeilad. Bydd eitem tudalen

newyddion yn cael ei chyhoeddi yn ystod wythnos 5 Gorffennaf. Felly, yn amodol ar gymeradwyaeth AGGC, rhagwelwn y dylai'r feithrinfa fod ar gael o fis Medi ymlaen.

(c) Barcud Derwen

Mae contractwr cynnal darlledu hirsefydlog y Cynulliad, Barcud Derwen yn nwylo gweinyddwyr. Digwyddodd hyn rai wythnosau cyn i'r contract gael ei gymryd drosodd gan Bow Tie, cwmni sy'n rhedeg llif darlledu i Balas San Steffan a'r GLA. Bydd Bow Tie yn cyflogi cyflogeion Barcud Derwen sy'n gweithio ar gontract y Cynulliad. Gan fod hyn yn gontract allweddol i'r Cynulliad, gweithredwyd ein cynllun parhau busnes i sicrhau bod ein gallu i ddarlledu yn cael ei gynnal.

2.0 Gweithgareddau a Digwyddiadau Allweddol

2.1 Ymweliad y Prif Weinidog

Daeth David Cameron ar ei ymweliad cyntaf â Chymru fel Prif Weinidog ar 17 Mai 2010. Yn gwmni iddo oedd Cheryl Gillan, Ysgrifennydd Gwladol newydd Cymru, a David Jones, Gweinidog yn Swyddfa Cymru.

Roedd yr ymweliad yn un llwyddiannus, gyda thimau ar draws y Cynulliad yn dod ynghyd ar fyr rybudd i sicrhau bod y digwyddiad yn esmwyth, yn ddiogel ac yn broffesiynol. Rydym hefyd wedi ymgorffori unrhyw wersi a ddysgwyd yn ystod yr ymweliad hwn er mwyn diweddaru ein protocol ymweliadau VIP.

2.2 Pierhead

Mae'r Pierhead wedi sefydlu ei hun fel prif leoliad digwyddiadau ym Mae Caerdydd. Mae wedi denu arddangosfeydd, darlithoedd, derbyniadau a pherfformiadau o safon uchel yn y pedwar mis ers ei agoriad swyddogol.

Mae'r Pierhead yn galluogi'r Cynulliad i gynnal digwyddiadau nad ydynt wedi'u cyfyngu gan amserau dechrau a diwedd busnes. Dros y misoedd nesaf bydd yn cynnal digwyddiadau a fydd yn hysbysu cynulleidfaoedd amrywiol am y refferendwm a'i effaith ar sut mae'r Cynulliad yn gweithio.

Bydd cyfres fisol hefyd o ddarlithoedd amser cinio ar amrywiaeth o bynciau cyfredol, yn ogystal â gweithgareddau cysylltiedig â theuluoedd ar y penwythnos yn annog y rheini sy'n mynd heibio a thwristiaid i ymweld â'r adeilad, a dysgu am ei le mewn hanes ac yn nemocratiaeth Cymru.

Ategir yr holl weithgareddau hynny gan y digwyddiadau wythnosol a noddir gan Aelod o'r Cynulliad sy'n dod ag amrywiaeth o sefydliadau, sectorau ac unigolion i'r Pierhead i gael gwybodaeth, cymryd rhan a chael eu hysbrydoli.

2.3 Penodiadau cyhoeddus

Cynhaliwyd cyfweliadau ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru ar 21 Mehefin ac argymhellwyd enwebu Huw Vaughan Thomas gan y Cynulliad ar gyfer y rôl. Ar 28 Mehefin, cadarnhaodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y dylid argymell y penodiad. Ar 13 Gorffennaf, bydd y Cynulliad yn pleidleisio ar y dewis ymgeisydd i'w enwebu i Ei Mawrhydi.

Hysbysebwyd Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Comisiynydd Safonau yn y Sunday Times, y Western Mail, y Daily Post a'r Municipal Journal yn gynharach y mis hwn. Y dyddiad cau ar gyfer yr holl rolau yw 14 Gorffennaf.

Mae'r Paneli Dethol wedi'u cadarnhau: Aelodau'r Panel ar gyfer y Bwrdd Taliadau yw Claire Clancy, Syr John Baker, Richard Calvert a Jackie Nickson. Aelodau'r Panel ar gyfer y Comisiynydd Safonau yw Claire Clancy, Jeff Cuthbert AC, Stuart Allan a Kathryn Bishop. Bydd y broses ddethol ar gyfer y ddau benodiad yn digwydd yn ystod misoedd yr haf.

2.4 Darlledu ar S4C

Ers 20 Ebrill, mae S4C wedi bod yn darlledu'r trafodion o Gynulliad Cenedlaethol Cymru gyda gwasanaeth o'r enw Y Dydd yn Y Cynulliad. Darlledir sesiynau llawn a rhai o bwyllgorau'r Cynulliad ar nos Fawrth, nos Fercher a nos Iau ar brif sianel S4C ar draws y Deyrnas Unedig o oddeutu 23:30 am hyd at chwe awr y noson. Er nad yw'n cael ei ffilmio mewn manylder uwch (HD), mae'r gwasanaeth hefyd ar gael ar Clirlun, sianel HD S4C. Mae'r cam yn unol â Pholisi

Rhaglenni S4C 2010 y bydd yn 'parhau i gryfhau ac ehangu (ei) ddarpariaeth fel darlledwr gwasanaeth cyhoeddus'.

2.5 Cymdeithas Hansard

Mae Cymdeithas Hansard wedi cyhoeddi adroddiad "Has Devolution Delivered for Women?" (Joyce McMillan a Ruth Fox). Mae hwn yn archwilio'r cydbwysedd rhwng y rhywiau yn y cyrff deddfu datganoledig yng Nghymru a'r Alban, a sut mae hyn wedi'i adlewyrchu mewn swyddi pwysig yn y llywodraeth a rolau llywyddu. Mae linc i'r adroddiad ar dudalen flaen Cymdeithas Hansard.

www.hansardsociety.org.uk

Bydd Ruth Fox yn cymryd rhan yn ein trafodaeth ar adolygu rheolau sefydlog yn y Pierhead ar 2 Gorffennaf, ac rydym yn trafod digwyddiad arall wedi'i gefnogi gan Gymdeithas Hansard yn ystod yr hydref.

2.6 Ffair Iechyd a Lles

Trefnwyd y Ffair Iechyd a Lles gan y tîm Iechyd Corfforaethol a'i chynnal dros ddau ddiwrnod ar 17 a 18 Mehefin. Cynhaliwyd y Ffair yn Nhŷ Hywel a gwahoddwyd staff, Aelodau'r Cynulliad a staff cymorth, yn ogystal ag eraill sy'n defnyddio'r adeilad.

Nod y Ffair oedd codi ymwybyddiaeth er mwyn diogelu iechyd a lles cyflogeion a chynyddu'r cyfle i helpu staff wella eu hiechyd a'u lles eu hunain. Roedd saith ar hugain o elusennau a sefydliadau allanol wedi'u cynrychioli a thri grŵp staff mewnol. Daeth llawer o bobl i'r Ffair ac roedd yr adborth a gafwyd gan y rhai a oedd yn bresennol a'r arddangoswyr yn gadarnhaol iawn; er enghraifft gan elusen canser Tenovus: "un o'r diwrnodau ymwybyddiaeth staff gorau yr ydym wedi bod iddo mewn blynyddoedd". Ddydd Gwener 18 Mehefin, cynhaliwyd sesiynau rhyngweithiol i gyflwyno staff i weithgareddau lles yn cynnwys techneg Alexander, dawns cardio a ioga ffitrwydd.

3.0 Adroddiad ariannol

3.1 Mae'r adran hon yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am weithgarwch ariannol ers yr adroddiad diwethaf i'r Comisiwn yn cwmpasu'r cyfnod a ddaeth i ben ar 28 Chwefror 2010.

3.2 Diwedd y flwyddyn 2009-10

Sefyllfa diwedd y flwyddyn 2009-10 dros dro, yn amodol ar archwiliad terfynol, oedd tanwariant o £856k (1.7 y cant) a briodolwyd i danwariant o £519k gan wasanaethau a thanwariant o £337k gan Aelodau. Mae hyn yn unol â dau adroddiad blaenorol i'r Comisiwn. Roedd tanwariant yr Aelodau yn bennaf o ganlyniad i wariant is na'r hyn a gyllidebwyd ar gyfer Lwfansau Aelodau, yn bennaf Costau Swyddfa £204k a Chostau Ychwanegol £101k.

3.3 Cyfrifon Adnoddau 2009-10

Cyflwynwyd y cyfrifon drafft i Swyddfa Archwilio Cymru yn barod ar gyfer yr archwiliad terfynol 1 Mehefin hyd 3 Gorffennaf 2010. Bydd y cyfrif terfynol yn cynnwys yr holl newidiadau cyflwyniadol a datgelu a nodwyd hyd yma yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ar 8 Gorffennaf. Ceir llofnod y Swyddog Cyfrifo ar 13 Gorffennaf wedi'i ddilyn gan yr Archwilydd Cyffredinol ar 14 Gorffennaf yn barod ar gyfer cyflwyno'r cyfrifon i'r Cynulliad Cenedlaethol ar 15 Gorffennaf.

3.4 Cyllideb Derfynol 2010-11

Yn erbyn cefndir o bwysau ariannol ychwanegol o ganlyniad i'r angen i ariannu prosiect UNO, mae'r penderfyniadau allweddol a wnaed er mwyn sicrhau bod cyllideb 2010-11 yn mantoli yn cynnwys:

- lleihau cyllidebau gwasanaeth gan wariant dewisol a gwariant a arweinir gan alw yn dilyn asesiad risg cynhwysfawr;
- rheoli swyddi gwag yn fwy cadarn gyda'r disgwyl y bydd swyddi o'r fath yn wag am isafswm o dri mis. Rydym wedi gosod targed o gyflawni arbedion o £250k o'r ymagwedd hon;

- dylai recriwtio i swyddi newydd a rhai sy'n bodoli eisoes gael ei gefnogi'n llawn gan achos busnes y mae'n rhaid ei gymeradwyo gan y Prif Weithredwr;

- parhau i ddefnyddio unrhyw arbedion a wneir yn ystod y flwyddyn, gan wella adroddiadau ariannol i ddangos yn glir yr hyn yr ydym yn ei gyflawni yn erbyn y targedau arbedion y cytunwyd arnynt;

- cadw'r £334k wrth gefn ar gyfer gwariant annisgwyl gwirioneddol; a

- lleihau'r gyllideb ar gyfer cynigion prosiect y Rhaglen Newid i £987k ynghyd ag £1.8miliwn i UNO.

3.5 Cyllideb Atodol 2010-11

Cafwyd newid i arweiniad Trysorlys EM, a chanlyniad hyn yw ni fydd angen cyfrifo cost tâl cyfalaf bellach. Yn unol â hynny, cafodd cyllideb 2010-11 ei ostwng £2.246m i £46.727m. Gan mai tâl tybiannol yw hwn, nid yw'r newid hwn yn effeithio ar swm yr arian y gall y Comisiwn ei wario.

3.6 Y flwyddyn 2010-11 hyd yn hyn

Y gwariant net hyd at ddiwedd mis Mai oedd £6.62m neu 14 y cant o'r gyllideb flynyddol. Bydd Adroddiad Rheolaeth Ariannol mis nesaf felly yn cynnwys y gyfres lawn o ddadansoddiad amrywiant manwl.

4.0 Gwybodaeth arall

4.1 Mae rhestr o'r wybodaeth a ddatgelwyd ers yr adroddiad diwethaf o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth i'w chael yn Atodiad A. Gellir datgelu'r wybodaeth yn llawn i Gomisiynwyr ar gais.

## GWYBODAETH A RYDDHAWYD YN DILYN CEISIADAU RHYDDID GWYBODAETH

## MAWRTH-MEHEFIN 2010

- **Gwybodaeth mewn perthynas â chostau teithio Aelodau'r Cynulliad a swyddogion, a darnau o arweiniad**
- **Oedran Aelodau'r Cynulliad ar gyfartaledd gyda lincs i'w proffiliau ar y we**
- **Manylion gwariant y Cynulliad ar gyngor cyfreithiol allanol ar gyfer y tair blynedd ariannol ddiwethaf**
- **Gwybodaeth mewn perthynas â theithiau cyffredinol ac addysgol yn y Senedd**
- **Manylion penodi Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**
- **Cofnod pleidleisio'r cynnig i ddirymu Gorchymyn Dileu Twbercwlosis (Cymru) 2009**
- **Gwybodaeth mewn perthynas â threuliau cyn Aelod o'r Cynulliad**
- **Manylion y cerbyd swyddogol**
- **Gwybodaeth mewn perthynas â chostau adnewyddu**
- **Siartiau strwythur swyddogaethau adran Cyfathrebu Allanol ac adran Adnoddau Dynol y Cynulliad**
- **Manylion Lwfansau Arweinwyr Pleidiau**
- **Gwybodaeth mewn perthynas â chyflogi staff cymorth Aelodau'r Cynulliad**

## GWYBODAETH NA CHAFODD EI RHYDDHAU YN DILYN CEISIADAU RHYDDID GWYBODAETH

## MAWRTH-MEHEFIN 2010

- **Enwau'r holl staff yn adran Cyfathrebu Allanol ac adran Adnoddau Dynol y Cynulliad**